# Yn Prynu Defaid i'ch fferm?

## Peidiwch â thalu am fwy na'r hyn brynoch chi!

Mae perygl y bydd llyngyr sy'n gallu gwrthsefyll anthelmintics a'r clafr ar y defaid neu'r hyrddod y byddwch yn eu prynu.

Dilynwch y 3 cham isod i ddiogelu'ch diadell

### 1 CORLANNU

*Cadwch y defaid (mamogiaid a hyrddod) mewn corlan neu fuarth am 24-48 awr*

### 2 TRIN

*Chwistrellwch nhw â Macrocyclic lactone*
*+ eu drensio â Levamisole*
*NEU*
*Dip* + Levamisole (drens melyn)*
*+ Macrocyclic lactone (drens clir)*

### 3 CWARANTIN

*Rhowch nhw i bori lle mae defaid eraill wedi bod y tymor hwn a'u cadw yno heb gymysgu â defaid eraill am o leiaf 3 wythnos*

**Holwch eich milfeddyg neu'ch cynghorydd am fwy o wybodaeth a help i ddewis y moddion iawn**

Pwysig *Peidiwch â rhoi moddion levamisole i'ch defaid am 14 diwrnod ar ôl eu dipio mewn dip organoffosfforws (OP). Darllenwch y daflen ddata cyn eu defnyddio.

# TRIN EICH DEFAID YN GYWIR

## 1. PEIDIWCH DYFALU - PWYSWCH NHW!

Mae perygl peidio â rhoi digon o ddôs o foddion i'ch defaid os ydych yn dyfalu eu pwysau. Felly, dewiswch y ddafad fwyaf yn y grwp a phwyswch hi i benderfynu ar y dôs cywir ar gyfer gweddill y grwp. Os ydy pwysau'r defaid yn amrywio'n fawr, gallech rannu'r grwp a phwyso'r ddafad fwyaf ym mhob is-grwp. Gofalwch fod y crât pwyso yn gweithio'n gywir cyn dechrau.

## 2. GOFALWCH FOD YR OFFER YN GWEITHIO AC MEWN CYFLWR DA

Cyn dechrau, gofalwch fod y dryllau drensio a'r chwistrellau'n rhoi'r swm cywir o foddion. Tynnwch y 'plunger' o chwistrell addas, rhowch eich bawd dros y pen blaen a chwistrellwch iddo'r dôs o'r offer rydych yn ei brofi i fesur y dôs. Gofalwch nad oes swigod ynddo.
Chwaraewch â'r dryll neu'r chwistrell nes ei fod yn rhoi'r dôs cywir. Gofalwch fod yr offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd a'ch bod yn cael un newydd yn ei le yn ôl y galw.

## 3. TECHNEG

Mae'r dechneg yn bwysig iawn i sicrhau bod y moddion yn gwneud ei waith. Gofalwch fod y ddafad yn sownd ac nad yw'n gallu neidio a phrancio. Gall y ddafad ddiodde' a hyd yn oed farw os bydd y dryll drensio yn torri'r cnawd yng nghefn ei cheg. Rhowch eich llaw o dan ei phen a'i droi ychydig i'r ochr. Rhowch drwyn y dryll yn y bwlch rhwng y danned blaen a'r cilddannedd ac yna tros gefn y tafod. Mae'n bwysig bod trwyn y dryll yn mynd dros gefn y tafod.

Os ydych yn chwistrellu'r ddafad, byddwch yn ofalus a meddwl p'un ai pigiad o dan y croen neu bigiad yn y cyhyr sydd ei angen. Cofiwch wrth drin y clafr, os oes un ddafad heb ei thrin, gallai'r holl waith fynd yn ofer gan y gallai ailheintio gweddill y ddiadell. Wrth ddipio, darllenwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ynghylch y dôs ac ati yn ofalus.

### Newynu

Mae ymchwil yn dangos bod y drens clir (Macrolcyclic lactone neu AV) yn gweithio'n well ar ôl newynu'r defaid am 12-24 awr cyn eu trin.

### Storio

Cadwch y cynnyrch mewn lle diogel, allan o lygad yr haul ar dymheredd o 4-25ºC. Chwiliwch am y dyddiad 'defnyddiwch cyn' ac ar ôl ei agor, defnyddiwch erbyn y dyddiad ar y pecyn.

A chofiwch ...
Waeth pa mor aml rydych yn defnyddio'r cynnyrch, darllenwch y cyfarwyddiadau BOB TRO.
Mae maint y dôs a'r cyfnodau cadw yn amrywio ac yn newid.

SCOPS Sustainable Control of parasites